**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mercher 28 Mehefin 2023, 11am-1pm**
**Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**

| | |
|---|---|
| **<u>Yn bresennol</u>** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Cyng. Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Suzanne Rankin | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| David Letellier | Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Martyn Stone | Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHT) De Cymru |
| Mike Wyatt | Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Matt Jenkins | Dirprwy Gyfarwyddwr y Dyfodol ac Integreiddio, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Estella Enos | Dirprwy Bennaeth yr UCP, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Dan Jones | Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais, Heddlu De Cymru |
| Danny Richards | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Eirian Evans | Pennaeth ur UCP, GPC |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Abigail Streeter | Swyddog Cynllunio a Gwella, CC |
| Cath Doman | Cyfarwyddwr, Tîm Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Gary Davies | Heddlu De Cymru |
| Graham Robb | Cadeirydd Annibynnol, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd |
| Suzanne Scarlett | Rheolwr Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Jane Hutt AoS | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip |
| Amelia John | Cyfarwyddwr Dros Dro Cymunedau a Threchu Tlodi, LlC |
| Michelle Powell | Cyfarwyddwr ACE (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái) |
| Hazel Cryer | Gweithredu yng Nghaerau a Threlái |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso / Ymddiheuriadau**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. | |
| 2. | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol ar 24 Ebrill 2023 wedi'u cwblhau.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 | |
| 3. | **Cydgynllun Ardal Caerdydd a'r Fro 2023-2028**<br><br>Cyflwynodd Cath Doman Cydgynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro, sydd wedi'i drefnu o amgylch tair thema cam bywyd: Dechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â phob thema cam bywyd. Mae cynlluniau cyflawni manwl yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r ymrwymiadau; mewn llawer o achosion, mae'r cynlluniau hyn yn adeiladu ar raglenni gwaith presennol.<br><br>Mae'r drafft terfynol wedi'i gymeradwyo gan y BPRh ac mae bellach yn cael ei rannu â grwpiau perthnasol i'w ystyried ac ar gyfer sicrwydd. Bydd y BPRh yn ceisio cymeradwyaeth y fersiwn derfynol ym mis Gorffennaf 2023.<br><br>Amlygwyd, yn dilyn yr adolygiad diweddar o drefniadau llywodraethu partneriaethau, daethpwyd i'r casgliad, lle mae gan y BGC a'r BPRh ddiddordeb mewn maes blaenoriaeth, mai'r corff mwyaf perthnasol fydd yn llywodraethu arno. Felly bydd trefniadau'n cael eu cryfhau wrth symud ymlaen i sicrhau bod gwelededd priodol rhwng gwaith y ddau fwrdd, gan gynnwys adroddiadau/rhannu gwybodaeth yn rheolaidd.<br><br>Mae'r dull hwn wedi sicrhau nad oes dyblygu gwaith - er enghraifft, mae ymrwymiadau'r Cynllun Ardal sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn adlewyrchu gwaith y BGC a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>• Nododd Alun Michael fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth yn ddiweddar, yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol y llynedd. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Holodd Alun a yw'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yng ngwaith y BGC a'r BPRh.<br><br>Nododd Gareth Newell fod Sheila Hendrickson-Brown wedi cytuno i gadeirio Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus y BGC, sef un o argymhellion Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd. Nododd Gareth fod cyfarfod yn cael ei gynnal gyda Llywodraeth Cymru yr wythnos nesaf i drafod creu llwybr i weithredu argymhellion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar lefel leol.<br><br>Nododd Sheila y bydd yn bwysig sicrhau bod cysylltedd rhwng gweithredoedd gwahanol sefydliadau wrth symud ymlaen.<br><br>• Mynegodd Alun Michael bwysigrwydd rhyngweithio â'r Heddlu a gweithio mewn partneriaeth i lywio materion gyda'n gilydd. Nododd Suzanne Rankin y bwriedir cynnal cyfarfod rhwng cydweithwyr yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd yr wythnos nesaf, i drafod sut i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd yn well yn y ffordd gywir, gan ganolbwyntio ar iechyd meddwl.<br><br>• Gofynnodd y Cynghorydd Huw Thomas sut y bydd y Cydgynllun Ardal yn caniatáu defnydd hyblyg o adnoddau prin mewn ardaloedd o angen uwch. Nododd Cath Doman y bydd hyn yn cael ei yrru gan yr hyn y mae partneriaid yn ei ddweud yw'r blaenoriaethau a'r materion; bydd angen dull cydgysylltiedig i gyflawni'r ateb.<br><br>• Amlygodd Sheila Hendrickson-Brown yr angen i ystyried gwerth cymdeithasol - mae angen gwaith i ddeall hyn a beth mae'n ei olygu.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Cymeradwyo Cydgynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro<br>• Sicrhau bod Cynllun Lles BGC Caerdydd yn cyd-fynd â'r Cydgynllun Ardal, lle bo hynny'n berthnasol.<br>• Rhoi sicrwydd i'r BPRh ynghylch gweithgareddau BGC perthnasol, a wneir ar ran y BPRh.<br>• Derbyn sicrwydd gan y BPRh ynghylch gweithgareddau y mae'n eu cynnal ar ran y BGC, drwy adroddiadau bob 6 mis ac yn ôl yr angen. | |
| **4.** | **Diweddariad Cyfiawnder Ieuenctid** | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd Graham Robb Adroddiad Blynyddol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, yn amlinellu cynnydd mewn gwasanaethau, canlyniadau a llywodraethu yn ystod y flwyddyn 2022-2023.<br><br>Ym mis Medi 2022, cyhoeddwyd Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid newydd 2022-24, 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd'. Yn 2022-23, arweiniodd dadansoddiad o anghenion plant at greu swyddogaeth arbenigol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu newydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau cyfathrebu craidd y mae llawer o bobl ifanc yn eu dangos. Yn ogystal, mae Addysg wedi darparu mwy o gapasiti i nodi, olrhain a chefnogi anghenion addysgol plant sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Nododd Graham fod y Bwrdd yn monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol bob chwarter, ac adrodd y canlyniadau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. O fis Ebrill 2023 - yn genedlaethol - bu cynnydd sylweddol yn nifer y dangosyddion perfformiad allweddol, fodd bynnag, bu cwestiynau ynghylch a yw'r dangosyddion cywir yn cael eu mesur ac a fydd yn helpu i wella gwasanaethau.<br><br>Amlygodd Graham bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc – wrth symud ymlaen, bydd prosesau'n cael eu rhoi ar waith fel y gall pobl ifanc roi adborth parhaus.<br><br>Nodwyd mai dyma fydd adroddiad olaf Graham fel Cadeirydd Annibynnol cyn ymddeol. Mae Sue Thomas wedi ei phenodi'n Gadeirydd Annibynnol newydd a bydd yn dechrau yn ei swydd yn llawn ym mis Gorffennaf. Diolchodd y Bwrdd i Graham am ei waith caled a'i ymroddiad i'r rôl.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Nodi'r cynnydd yng Ngwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd<br>• Gweithio gyda'r Cadeirydd Annibynnol newydd ar ymgysylltu ac adrodd gan y Bwrdd i'r BGC yn 2023-24. | |
| 5. | **Diweddariad Dinas sy'n Dda i Blant a'r Camau Nesaf**<br><br>Cyflwynodd Suzanne Scarlett ddiweddariad Dinas sy'n Dda i Blant.<br><br>Yn dilyn asesiad o gynnydd y ddinas, mae UNICEF UK yn rhoi cydnabyddiaeth amodol i Gaerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF. Rhoddir statws llawn a chyhoeddus yn hyn o beth pan fydd y ddinas wedi bodloni tri argymhelliad. Mae'r meysydd y mae angen sylw pellach arnynt yn cynnwys:<br><br>1. Datblygu dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â gwahaniaethu. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | 2. Cryfhau'r 'ddolen gyfranogi' fel bod plant, pobl ifanc ac ymarferwyr yn deall effaith a dylanwad ymgysylltiad pobl ifanc.<br><br>3. Ehangu'r ddealltwriaeth gyffredin o hawliau plant a dull sy'n seiliedig ar hawliau plant.<br><br>Nododd Suzanne, er mwyn gweithredu'r argymhellion yn effeithiol a llywio cam nesaf y Rhaglen Dinas sy’n Dda i Blant, mae strwythur llywodraethu cadarn yn hanfodol.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau’r BGC:<br><br>• Gofynnodd y Cynghorydd Huw Thomas pa fath o gynnydd y bydd UNICEF eisiau ei weld cyn rhoi statws llawn i Gaerdydd. Nododd Suzanne fod UNICEF yn disgwyl ymrwymiad i weithredu. Bydd hyn yn cael ei fynegi mewn Cynllun Cynaliadwyedd, a fydd yn cael ei greu gan y Tîm Caerdydd sy’n Dda i Blant mewn ymateb i'r argymhellion.<br><br>• Canmolodd Alun Michael y gwaith sydd wedi digwydd hyd yn hyn gan fod Caerdydd wedi gweithio i ennill statws Dinas sy’n Dda i Blant. Holodd Alun ynghylch rhan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn y gwaith hwn. Nododd Suzanne fod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhan annatod o hawliau plant a bod y gwaith yn y maes hwn wedi cyfrannu at y statws Dinas sy’n Dda i Blant y mae Caerdydd wedi'i gyflawni. Bydd cysylltiadau pellach â'r gwaith hwn yn y strategaeth wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc.<br><br>• Cododd Fiona Kinghorn y cysylltiad rhwng cynllunio trefol a chreu lleoedd, yn enwedig cryfhau trafnidiaeth gyhoeddus, a lles plant. Nododd Suzanne fod plant a phobl ifanc wedi mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o gynllunio trafnidiaeth strategol.<br><br>• Tynnodd Sarah McGill sylw at bwysigrwydd dadansoddi data.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cynaliadwyedd a'r trefniadau llywodraethu i alluogi statws llawn 'Dinas sy'n Dda i Blant'.<br>• Cynnal digwyddiad undydd ym mis Tachwedd 2023 i alluogi plant a phobl ifanc i rannu eu blaenoriaethau ar gyfer y ddinas, gan lywio gwaith y Bwrdd. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 6. | **Anhrefn Trelái a Threfniadau Adfer**<br><br>Ar gyfer yr eitem agenda hon, ymunodd Jane Hutt AoS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, ag aelodau'r BGC, yn ogystal â chydweithwyr Michelle Powell a Hazel Cryer o dîm Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE), a fydd yn gweithio gyda'r Bwrdd a'r gymuned dros y misoedd nesaf.<br><br>Rhoddodd yr eitem gyfle i drafod ymateb y BGC i ddigwyddiadau diweddar yn Nhrelái, yn ogystal â datblygiad Cynllun Cymunedol Caerau a Threlái.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniad i Aelodau'r BGC a amlinellodd y canlynol:<br><br>• Datganiad Cenhadaeth / Amcanion Drafft<br>• Datblygu Cynllun Cymunedol – Llywodraethu<br>• Llywodraethu Ehangach / Cysylltiedig<br>• Map Proses Adferiad Trelái (Gydag amserlenni dangosol i'w cadarnhau)<br>• Pwyslais ar Ymgysylltu â'r Gymuned<br><br>Cynigiwyd creu Gweithgor BGC i ddatblygu atebion/camau gweithredu unigol ac amlasiantaethol i alluogi adferiad yn Nhrelái. Yn ogystal, cynigiwyd bod y Grŵp Cyfeirio Caerau a Threlái newydd ei sefydlu – dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip - yn adrodd i'r BGC wrth symud ymlaen. Bydd y Grŵp Cyfeirio yn cefnogi datblygiad y Cynllun Cymunedol ar gyfer Trelái & Caerau. Bydd Grŵp Llywio Cymunedol Caerau a Threlái yn adrodd i'r Grŵp Cyfeirio. Ffocws y Grŵp hwn fydd datblygu a gweithredu Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned, i gynnwys y gymuned ehangach wrth ddatblygu'r Cynllun Cymunedol ar gyfer Caerau a Threlái. Nodwyd bod angen ystyried ymhellach y berthynas rhwng y Grŵp Cyfeirio a'r Grŵp Llywio, er mwyn osgoi hierarchaeth llywodraethu.<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael y gwaith hwn - a'r Cynllun Cymunedol - yn iawn. Bydd dull cydgynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y broses ddatblygu. Er bod gwaith wedi dechrau ar unwaith mewn ymateb i ddigwyddiadau diweddar, gan gynnwys datblygu rhaglen o ddarpariaeth ieuenctid dros yr haf, bydd datblygu'r Cynllun Cymunedol yn cymryd amser, er mwyn caniatáu ymgysylltu helaeth â'r gymuned. Nodwyd y bydd y Grŵp Llywio Cymunedol yn cymeradwyo'r Cynllun terfynol - y nod ar hyn o bryd yw cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mawrth 2024.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>• Amlygwyd y bydd meithrin ymddiriedaeth yn y gymuned yn elfen allweddol o'r gwaith hwn. Er mai plant a phobl ifanc yw'r ffocws | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | cychwynnol, mae gweithio gyda'r gymuned ehangach yn hanfodol hefyd.<br><br>• Mae gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu cynllunio i ddigwydd dros yr haf. Nodwyd bod angen sicrhau bod y gweithgareddau'n cael eu hysbysebu'n briodol.<br><br>• Amlygodd Suzanne Scarlett fod cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Grant Cymunedau ar gyfer Trelái a Chaerau, a lansiwyd ar 27 Mehefin gan y Grŵp Gweithredu Ieuenctid. Gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb, a'r gobaith yw y bydd hyn yn cael ei ddosbarthu i gynifer o sefydliadau cymunedol â phosibl. Mae angen penderfynu ar broses o hyd wrth asesu'r ceisiadau / meini prawf a ffefrir, i sicrhau bod amrywiaeth gynrychiadol o weithgareddau. Gellir defnyddio'r cyllid ar unwaith, hyd at 31 Rhagfyr 2023.<br><br>• Nododd Alun Michael ei bod yn gadarnhaol bod y trefniadau presennol wedi eu parchu wrth ddatblygu'r trefniadau ymateb. Amlygodd Alun ei bod yn bwysig nodi rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn y gwaith hwn.<br><br>• Dywedodd Jane Hutt AoS fod y gynrychiolaeth a'r arweinyddiaeth amlasiantaethol yn rhagorol, gyda phopeth yn ei le i'r gwaith hwn symud ymlaen yn weithredol.<br><br>• Nododd Martyn Stone fod gwaith partneriaeth effeithiol wedi bod yn hanfodol wrth ddarparu ymateb effeithiol, ac na fu anhrefn pellach.<br><br>• Dywedodd Sheila Hendrickson-Brown fod yn rhaid parhau i ganolbwyntio ar gefnogi a datblygu cymunedau ledled Caerdydd, y tu hwnt i Drelái a Chaerau. Amlygodd Sheila mai'r cwestiwn wrth symud ymlaen fydd a yw'r canlyniadau'n cael eu cyflawni, ac y dylid adlewyrchu hyn yn y data.<br><br>• Amlygodd Fiona Kinghorn fod y data'n dangos bod gan Drelái a Chaerau lefelau uchel o blant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ond tueddiadau troseddu isel. Holodd Fiona pa mor ddefnyddiol yw'r data sydd ar gael o ran deall beth arweiniodd at y digwyddiadau yn Nhrelái.<br><br>• Pwysleisiodd Michelle Powell bwysigrwydd clywed llais y gymuned ehangach a phwysleisiodd yr angen i sicrhau bod y neges yn gywir/rheoli disgwyliadau cymunedol. Nid oes ateb cyflym ac mae angen ystyried y Cynllun Cymunedol yn gynllun hirdymor. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Nododd y Cynghorydd Huw Thomas y bydd y Cynllun Cymunedol yn adeiladu ar wasanaethau a gweithgareddau cyhoeddus presennol, ac nad yw rhai ohonynt mor weladwy ag y gallent fod. Mae'n ymwneud â newid yr ysgogiadau sydd ar gael. Y gymuned fydd yn penderfynu beth yw da.<br><br>• Nododd Michelle Powell y bydd angen diweddaru ACE yn rheolaidd ynghylch pa wasanaethau a gweithgareddau sydd ar waith, fel y gellir rhoi'r wybodaeth i aelodau'r gymuned.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>• Suzanne Scarlett a Michelle Powell i gyfarfod i drafod gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i blant a phobl ifanc yn Nhrelái a Chaerau.<br>• Sheila Hendrickson-Brown i gysylltu Michelle Powell a Hazel Cryer ag unigolion sydd wedi bod ar deithiau tebyg, yn enwedig o ran ymgysylltu a chynllunio cymunedol.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Amlinellu'r trefniadau ymateb / strwythurau llywodraethu arfaethedig.<br>• Dirprwyo datblygiad parhaus y gwaith hwn i weithgor y BGC. | Suzanne Scarlett/ Michelle Powell<br><br>Sheila Hendrickson-Brown |
| **7**. | **Unrhyw fusnes arall**<br><br>Darparwyd dau ddiweddariad ysgrifenedig o dan UFA:<br><br>• Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu<br>• Diweddariad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Cymeradwyo'r ddau gam gweithredu a nodwyd yn y diweddariad Diogelwch Cymunedol a Diogelu, sy'n gysylltiedig ag Adolygiadau Dynladdiad Domestig.<br><br>**Cyfarfod Nesaf y BGC:**<br>• **4 Hydref 2023** | |